



Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru Older People's Commissioner for Wales

Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

10.00am ar 26 Hydref 2023

Yr Urdd, Canolfan Mileniwm Cymru

Yn bresennol:

Claire Bevan
Julia Evans
David Powell
Chris Knight (rhithwir)

Hefyd yn bresennol:

Heléna Herklots, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Kelly Davies, Prif Swyddog Gweithredu
Rachel Bowen, Cyfarwyddwr Polisi
Katie Holliday, Pennaeth Cyllid ac Adnoddau
Hayley Bufton, Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)
Ruth Thomas, Uwch-gynorthwydd Gweithredol (Ysgrifenyddiaeth)

TIAA:

Helen Cargill (rhithwir)

Swyddfa Archwilio Cymru:

Helen Goddard

Ymddiheuriadau:

Dim

1 Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a llongyfarchodd Ruth Thomas ar gael ei phenodi'n Uwch-gynorthwydd Gweithredol i'r Comisiynydd.

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

i) Cofrestr Buddiannau

Nid oes unrhyw ddiweddariadau wedi cael eu gwneud i'r Gofrestr Buddiannau.

ii) Cyngor a roddwyd i'r Comisiynydd neu ei staff ers y cyfarfod diwethaf

Dim i'w nodi.

2 Adolygu cofnodion

i) Cofnodion y cyfarfod diwethaf (Gorffennaf 2023) a materion sy'n codi

ii) Cofnodion y Cyfarfod Arbennig ar 26 Medi 2023

i) Cofnodion y cyfarfod diwethaf (Gorffennaf 2023) a materion sy'n codi

Cyflwynwyd dau welliant i'r cofnodion (fel y nodir isod) gan Helen Goddard cyn y cyfarfod. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn y cofnodion a gyhoeddir.

Tudalen 3

- *Rhoi cyfrif am Lesoedd IFRS16 a datgeliadau mewn perthynas â nhw ers iddo gael ei fabwysiadu gan FReM ar gyfer 2022-23.*
- *Y datgeliadau newydd sy'n ofynnol yn yr adroddiad taliadau ar ôl ychwanegu swydd newydd y Cyfarwyddwr Polisi at y Tîm Rheoli Strategol.*

Gofynnodd Julia Evans a fyddai adolygiad ar ôl yr Archwiliad yn cael ei gynnal i ganfod yr arferion gorau yn y sector cyhoeddus ehangach. Cadarnhawyd bod adolygiadau cyfnodol yn cael eu cynnal ond nad oedd dim wedi'i gynllunio ar gyfer eleni.

Gofynnodd Julia Evans am ddiweddariad mewn perthynas ag adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Nodwyd bod ymateb gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei ddosbarthu ac ni nodwyd unrhyw faterion sy'n peri pryder.

ii) Cofnodion y Cyfarfod Arbennig ar 26 Medi 2023

Cyflwynwyd y diwygiad canlynol gan Helen Goddard cyn y cyfarfod. Bydd hyn yn cael ei ymgorffori yn y cofnodion a gyhoeddir.

Tudalen 3

Dyweddodd Helen wrth y pwyllgor fod pum diwrnod archwilio yn ychwanegol at y rhai a nodwyd yn y cynllun yn cael eu codi ar y Comisiynydd oherwydd bod gweithredu safon ISA315 ddiwygiedig yn cymryd mwy o amser na'r bwriad gwreiddiol, yr effaith a gafodd symud swyddfa'r Comisiynydd ar y datganiadau ariannol, a gwaith ychwanegol a wnaed gan yr archwilydd TG i gael gwell dealltwriaeth o amgylchedd gweithredu'r Comisiynydd.

Holwyd ynghylch y dyddiad ar gyfer ailgyhoeddi Cyfarwyddyd Adrodd ar Gyfrifon Diwygiedig 2023-2024 i gydymffurfio â FReM. Cytunodd Helen Goddard a'r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau i fynd ar drywydd hynny.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd fis Gorffennaf 2023 ac ar 26 Medi 2023.

3 Archwiliad Mewnol – SICA

Cyflwynodd Helen Cargill yr adroddiad i'r Pwyllgor ar gyflawni hyd yma yn erbyn y cynllun archwilio a rhoddodd ddiweddariad ar weminar Diwylliant a Chwythu'r Chwiban diweddar TIAA.

Trafododd y pwyllgor bolisiau ac arferion y sefydliad o ran chwythu'r chwiban. Nodwyd mai un o fanteision sefydliad bach yw'r cyfle i fod yn agored ac yn dryloyw, sy'n wahanol i sefydliad mawr. Cadarnhaodd Helen Cargill fod chwythu'r chwiban yn brin mewn sefydliadau bach, ond gall ddigwydd, ac mae angen i broses fod ar waith fel y gall staff 'chwythu'r chwiban'. Nodwyd bod gan y Comisiynydd Bolisi Codi Pryderon a bod PASR yn cael ei gynnwys yn y polisi fel llwybr i staff ei ddefnyddio, os oes angen.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw arolygon staff ar y gweill ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Hysbyswyd y Pwyllgor, er nad oedd unrhyw arolygon swyddogol wedi'u cynllunio, bod staff yn gallu cael mynediad at arfarniadau a chyfarfodydd un-i-un rheolaidd, sydd i gyd yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r sefydliad yn gweithredu dull 'dim syrpreis' o werthuso, sy'n cael ei ategu gan adroddiadau i PASR ar iechyd y sefydliad, gan ddarparu dull trionglog.

Hysbyswyd y Pwyllgor bod TIAA yn gwneud gwaith ar ddefnyddio deallusrwydd artifisial wrth archwilio, ond roedd hyn yn y camau cynnar iawn. Dywedodd y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau wrth y grŵp y byddai staff y Comisiynydd yn cael hyfforddiant ymarferol ar ddetholiad o offer deallusrwydd artifisial cyn y Nadolig.

Hysbyswyd y Pwyllgor nad oedd unrhyw archwiliadau wedi'u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf, ond roedd amserlen wedi'i chynllunio ar gyfer darparu a chyflwyno'r adroddiadau yng nghyfarfodydd PASR mis Ionawr ac Ebrill. Gofynnodd Julia Evans am sicrwydd ynghylch darparu adnoddau ar gyfer y cynllun cyflawni, a nodwyd bod

amserlen ar waith a bod adnoddau ar gael. Gofynnodd Chris Knight i adborth gael ei roi i'r Pwyllgor os nad oedd yr adroddiadau wedi'u cwblhau'n derfynol. Diolchodd y Cadeirydd i TIAA am y diweddariad ar y cynllun gwaith ac am y sicrwydd y mae'r adroddiad yn ei roi i'r Pwyllgor.

4 Archwilio Cymru – Diweddariad Hydref

Rhoddodd Helen Goddard ddiweddariad cynnydd i'r Pwyllgor, gan dynnu sylw at elfennau allweddol yn y papur, a chadarnhaodd y bydd y gwaith ar archwiliad 2023-24 yn dechrau yn y Flwyddyn Newydd.

Hysbyswyd y Pwyllgor bod cyfarfod wedi'i drefnu gyda'r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau i drafod gweithredu gwaith dadansoddi data yn yr archwiliad ac y bydd y canlyniadau'n cael eu hadrodd yn y cyfarfod nesaf. Mae yna ymgynghoriad byw gan Archwilio Cymru ynghylch cynnydd arfaethedig o 6.4% mewn ffioedd, a fydd yn cael ei gadarnhau ar sail canlyniad yr ymgynghoriad.

Dywedodd David Powell y gallai cynnwys adroddiad arfaethedig y Cyd-bwyllgorau Corfforedig effeithio ar waith rhanbarthol y Comisiynydd a'r ffyrdd y mae'n ymgysylltu ag awdurdodau lleol. Cytunodd Helen i rannu dolen i'r adroddiad.

Nododd y Cadeirydd ei bod yn falch o weld y gwaith parhaus ar lywodraethu ansawdd y GIG a holodd a fydd cynllun i edrych yn benodol ar ofal cymdeithasol a'r effaith ar bobl hŷn. Dywedodd Helen Goddard nad oedd unrhyw gynlluniau i wneud hyn ar lefel genedlaethol.

Cadarnhawyd bod adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru wedi ei gyhoeddi heddiw a bod datganiad i gefnogi'r canfyddiadau wedi ei gyhoeddi gan y Comisiynydd.

Anogodd y Cadeirydd yr Aelodau i ddefnyddio'r digwyddiadau arfer gorau lle bo hynny'n berthnasol.

Diolchodd y Cadeirydd i Archwilio Cymru a chadarnhaodd fod y Pwyllgor wedi nodi'r adroddiad.

5 Asesu Perfformiad Archwilwyr Allanol

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau yr adolygiad o'r Archwiliad Allanol ar gyfer 2023. Gadawodd Archwilio Cymru a'r Archwilwyr Mewnol y cyfarfod tra bod yr eitem hon ar yr agenda yn cael ei chyflwyno a'i thrafod.

Cytunodd y Pwyllgor fod Archwilio Cymru yn darparu gwasanaeth da am gost resymol a bod cyfraniad cadarnhaol gan archwilwyr i gyfarfodydd y Pwyllgor.

Dywedodd Julia Evans ei bod yn croesawu ychwanegu sylwadau'r Cadeirydd at y ddogfen wrth grynhoi perthynas y Pwyllgor â'r Archwilwyr Allanol yn effeithiol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau am y briff. Ateggodd David Powell sylwadau a wnaed gan y Cadeirydd a dymunai nodi bod yr adroddiad adborth glân yn adlewyrchu'r gwaith a wnaed yn fewnol gan y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau. Ystyriwyd bod y gymhariaeth â'r gwariant a nifer y diwrnodau archwilio a ddefnyddiwyd gan Gomisiynwyr eraill yn ddefnyddiol.

Dychwelodd Helen Goddard a Helen Cargill i'r cyfarfod a dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn ddiolchgar am waith Archwilio Cymru ac yn gwerthfawrogi'r berthynas y maent yn ymddiried ynnddi ac argaeledd y tîm wrth geisio cyngor.

Diolchodd Helen Goddard i'r Pwyllgor am yr adborth cadarnhaol a nododd y trafodaethau agored a gonest a gynhaliwyd rhwng y ddau sefydliad sy'n cynorthwyo'r gwaith hwn. Byddai cadarnhad yn cael ei ddarparu y flwyddyn nesaf ynghylch pwy fydd yn bwrw ymlaen â'r archwiliad yn y dyfodol.

6 Cofrestr Risg Strategol

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredol yr adroddiad crynodeb risg, gan roi trosolwg lefel uchel o'r newidiadau a wnaed i'r gofrestr risg dros y chwarter blaenorol a gofynnodd i'r Pwyllgor nodi'r ffaith bod tair risg wedi cael eu hychwanegu at y gofrestr:

- Ailgyflwyno'r risg sy'n cydnabod yr effaith negyddol y gall amseriad cyhoeddi cyllideb Llywodraeth Cymru ei chael, yn enwedig pe bai'r Comisiynydd yn cael toriad yn y gyllideb.
- Risg newydd i adlewyrchu'r gwaith parhaus i ennill achrediad IASME ac i ddangos cydymffuriad y Comisiynydd â diogelwch a rheoli data.
- Risg Ymchwiliad Covid-19 a oedd wedi cael ei huwchgyfeirio o adran rhagolwg y Gofrestr Risg Strategol i adlewyrchu'r newid yn ffocws y risg sy'n deillio o faterion adnoddau i'r effaith bosibl ar enw da'r Comisiynydd.

Holodd David Powell faint o waith oedd ynghlwm wrth gyfrannu at yr Ymchwiliad Cyhoeddus. Cydnabu'r Prif Swyddog Gweithredu, er bod y gwaith ychwanegol yn broblem, a'i fod yn cael ei fflagio ar y gofrestr risg, ei fod yn cael ei reoli'n effeithiol.

Hysbyswyd y Pwyllgor y bydd amser paratoi sylweddol yn cael ei gynllunio ar gyfer y Comisiynydd cyn cael ei wahodd i roi tystiolaeth lafar mewn gwrandawriadau ar gyfer Modiwl 2b y flwyddyn nesaf.

Cafwyd trafodaeth ynghylch amserlennu gweithgarwch yr Ymchwiliad a'r newid i Gomisiynydd newydd, gyda'r angen i gymorth ariannol a chyfreithiol sylweddol fod ar gael i'r Comisiynydd presennol hyd yn oed ar ôl i'w thymor ddod i ben.

Amlinellodd y Prif Swyddog Gweithredu fod y costau cyfreithiol hyd yma wedi bod yn sylweddol. Bydd cam nesaf yr Ymchwiliad yn arwain at gostau cyfreithiol wrth baratoi tystiolaeth lafar. Atgoffwyd yr aelodau nad oes unrhyw gyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyrff cyhoeddus sy'n ymateb i'r Ymchwiliad, na gan yr Ymchwiliad ei hun.

Trafododd y Pwyllgor yr effaith ddifrifol y byddai darparu setliad cyllideb gwastad gan Lywodraeth Cymru yn ei chael ar y sefydliad. Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu wrth y Pwyllgor y byddai senarios ariannol eraill yn cael eu modelu. Wrth ymateb i ymholiad ynghylch 'senarios eraill', dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu wrth y Pwyllgor bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut mae toriadau'n cael eu rheoli tra'n parhau i gydymffurfio'n statudol.

Roedd y Pwyllgor yn bryderus iawn y gellid defnyddio toriadau yn y gyllideb fel mecanwaith i ddod â llety'r Comisiynwyr at ei gilydd ac, o bosibl, i danseilio annibyniaeth y Comisiynwyr.

Tynnodd y Prif Swyddog Gweithredu sylw at staffio dan Risg 7 a diweddarau'r Pwyllgor bod penodiad mewnol wedi'i wneud ar gyfer swydd yr Arweinydd Hawliau a Chydraddoldeb. Hysbyswyd y Pwyllgor y byddai cyfweiliadau'n cael eu cynnal ar 7 Tachwedd i benodi Uwch Weithiwr Achos newydd. Byddai hyn yn helpu i roi mwy o sefydlogrwydd i staff y sefydliad yn y dyfodol agos.

Hysbyswyd y Pwyllgor bod sicrwydd wedi'i dderbyn gan yr is-adran a noddir y byddai'r Comisiynydd newydd yn ei swydd erbyn 1 Medi 2024.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog Gweithredu am yr adroddiad cynhwysfawr, gan nodi bod yr adran Rhagolwg yn arbennig o ddefnyddiol.

7 Perfformiad yn erbyn y Cynllun Busnes

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Polisi drosolwg cynhwysfawr o gyflawniad y Comisiynydd yn erbyn y cynllun gwaith.

Nodwyd bod pob maes gwaith yn mynd rhagddo'n dda, heb unrhyw feysydd sy'n peri pryder.

Cytunwyd i beidio â bwrw ymlaen â chomisiynu ymchwil ar oedraniaeth a gofal cymdeithasol oherwydd y cyfyngiadau amser ar gyfer cyflawni prosiect ymchwil ystyrllon.

Diolchwyd i'r Cyfarwyddwr Polisi am y diweddariad cynhwysfawr a'r papur cysylltiedig.

8 Adroddiad Llywodraethu Chwarterol gan gynnwys y canlynol:

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu uchafbwyntiau'r adroddiadau chwarterol.

i) Adroddiad Llywodraethu

Dim i'w nodi.

ii) Adroddiad Iechyd y Sefydliad

Rhoddodd y Prif Swyddog Gweithredu drosolwg o'r adroddiad chwarterol a nododd mai staffio oedd y mater allweddol i'w nodi gyda recriwtio ar gyfer swyddi ar y gweill. Nodwyd bod y broses o recriwtio aelod ychwanegol o PASR yn mynd rhagddi gyda ffocws ar TG a seiberddiogelwch.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog Gweithredu am yr adroddiad cynhwysfawr.

iii) Adroddiad Cyfathrebu

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu yr Adroddiad, a ysgrifennwyd gan y Pennaeth Cyfathrebu, fel trosolwg ar y chwarter. Nododd y Pwyllgor y sylw sylweddol yn y cyfryngau ar gyfer y chwarter hwn.

Nododd y Pwyllgor fod y lefelau ymgysylltu a'r niferoedd sy'n defnyddio'r cyfryngau yn galonogol.

Nododd y Cadeirydd yr adroddiad cynhwysfawr a'r sicrwydd a ddarparwyd.

iv) Adroddiad Ariannol

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau yr Adroddiad i'r Pwyllgor gan dynnu sylw at ychwanegu golwg ciplun.

Hysbyswyd y Pwyllgor bod cyllideb 2023-24 o dan bwysau sylweddol oherwydd effaith chwyddiant a dyfarniadau costau byw i weithwyr. Dywedwyd wrthynt fod cyllidebau'n cael eu diweddarau'n fisol i ymateb i'r pwysau sylweddol ar gyllidebau'r Comisiynydd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau am yr adroddiad cynhwysfawr a'r sicrwydd ynghylch y cwestiynau a godwyd.

v) Cerdyn Sgorio Cytbwys

Nododd y Pwyllgor y Cerdyn Sgorio Cytbwys.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod yr adroddiadau Llywodraethu Chwarterol yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r maes hwn.

9 Diweddariad ar Seibergadernid (diweddariad ar lafar)

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau ddiweddariad i'r Pwyllgor ar seibergadernid y Comisiynydd.

Oherwydd y risgiau diogelwch cysylltiedig, nid oes cofnod o'r drafodaeth am yr eitem hon.

10 Adolygiad o Bolisiâu Allweddol

- (i) Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Gwrth-wyngalchu Arian**
- (ii) Cynllun Ymateb Twyll**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau y polisi a'r cynllun i'w cymeradwyo. Diolchwyd i'r Pwyllgor am y mewnbwn i'r dogfennau drafft a diolchwyd i Helen Cargill am ddarparu templed cynllun ymateb i dwyll.

Cymeradwyodd y pwyllgor y dogfennau.

Diolchwyd i'r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau am ei gwaith yn y maes hwn.

11 Treulïau'r Comisiynydd

Nododd y Pwyllgor yr eitemau a restrir yn y Gofrestr Dreulïau.

12 Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu y Gofrestr ar gyfer y chwarter.

Nododd y Pwyllgor yr eitem a restrir ar y Gofrestr ar gyfer y chwarter.

13 Unrhyw Fater Arall

Dim i'w nodi.

14 Adolygu'r cyfarfod, gan gynnwys trafodaeth ynglŷn ag eitemau i'w cynnwys ar yr agenda a ffocws cyfarfodydd yn y dyfodol

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am y trafodaethau defnyddiol.

Nodwyd bod y papurau yn llawn gwybodaeth ac yn rhoi argraff gadarnhaol o waith hanfodol y Comisiynydd.

Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod wedi'i gadeirio'n effeithiol a'i fod wedi'i drefnu'n dda.

15 Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Cynhelir sesiwn datblygu PASR anffurfiol ar 11 Ionawr. Cynhelir cyfarfod llawn nesaf y Pwyllgor ddydd Iau 25 Ionawr 2024 am 10.00am (MS Teams).